

COVID 19 – Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth Orlhain Gwent

Ein manylion cyswllt

Mae'r sefydliadau canlynol yn gyd-reolwyr data mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn:

Sefydliad:	Manylion cyswllt Diogelu Data:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	info@blaenau-gwent.gov.uk 01495 311556
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	dataprotection@caerphilly.gov.uk 01443 864322
Cyngor Sir Fynwy	dataprotection@monmouthshire.gov.uk 01633 644744
Cyngor Dinas Casnewydd	information.management@newport.gov.uk 01633 656656
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	DPA@torfaen.gov.uk 01633 647467

Y math o wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu

Os ydych wedi cael prawf positif SARS-CoV-2, rydym yn casglu a phrosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

- eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt,
- teitl eich swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith,
- enwau, dyddiadau geni a manylion cyswllt y sawl sydd ar eich aelwyd ynghyd ag a oeddynt yn bresennol yn ystod y cyfnod pan roeddech yn heintus,
- enwau a manylion cyswllt eraill rydych wedi bod mewn cysylltiad â nhw yn ystod y cyfnod pan roeddech yn heintus,
- y manau rydych wedi ymweld â nhw yn ystod y cyfnod pan roeddech yn heintus, ac
- unrhyw symptomau COVID19 sydd gennych ac os ydych wedi bod yn yr ysbyty gyda'r symptomau hyn.

Os ydych wedi eich hadnabod fel rhywun sydd wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf positif SARS-CoV-2, rydym yn casglu a phrosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

- eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt,
- teitl eich swydd, man gwaith, rheolwr llinell a disgrifiad o'ch gwaith,
- enwau, dyddiadau geni a manylion cyswllt y sawl sydd ar eich aelwyd, ac
- unrhyw symptomau COVID19 sydd gennych ac os ydych wedi bod yn yr ysbyty gyda'r symptomau hyn.

Sut rydym yn cael yr wybodaeth bersonol a pham y mae'r wybodaeth gennym

Mae peth o'r wybodaeth bersonol a brosesir gennym wedi ei rhoi i ni yn uniongyrchol gennych chi, neu eich cynrychiolydd, am y rhesymau canlynol:

- er mwyn gweithredu gwasanaeth olrhain cysylltiadau COVID19, gan gynnwys rhoi cyngor a chymorth i rai sydd wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf positif SARS-CoV-2, a bwcio profion SARS-CoV-2 ar gyfer y sawl sy'n dangos symptomau COVID19.
- Mae pob galwad a wneir gan y timau Orlhain Cyswllt yn cael eu cofnodi at ddibenion monitro / hyfforddi ac i gynorthwyo gyda datrys unrhyw gwynion y gellir eu derbyn.

Rydym hefyd yn derbyn gwybodaeth bersonol yn anuniongyrchol, o'r ffynonellau canlynol yn y senarios canlynol:

- Os ydych wedi cael prawf positif SARS -CoV-2, bydd eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi eu rhoi inni gan y ganolfan brofi.
- Os ydych wedi eich adnabod fel rhywun sydd wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf positif SARS-CoV-2, bydd eich enw, dyddiad geni, cyfeiriad a manylion cyswllt wedi eu rhoi inni gan yr unigolyn hwnnw neu eu cynrychiolydd.

Gallwn rannu'r wybodaeth hon gyda'r sefydliadau hynny a enwir uchod sy'n ffurfio Gwasanaeth Orlhain Gwent, i ddibenion ymateb i'r argyfwng critigol iechyd cyhoeddus mewn perthynas â'r pandemig COVID-19. Gallwn hefyd rannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru i'r pwrpas hwn.

Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y rhesymau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt i brosesu'r wybodaeth hon yw:

- Erthygl 6(e) – Mae angen prosesu er mwyn ymgymryd â thasg a ymgymerir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol wedi ei freinio yn y rheolwr.

Cefnogir hyn gan y Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Claf) 2002.

Gan fod amddiffyniad ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer 'data personol categori arbennig' megis gwybodaeth iechyd, rhaid adnabod sylfaen gyfreithlon ychwanegol er mwyn prosesu'r dosbarthiadau hyn o wybodaeth, fel yr amlinellir isod:

- Erthygl 9(i) – mae angen prosesu am resymau budd y cyhoedd i amddiffyn iechyd cyhoeddus.

Gall erthyglau perthnasol eraill gynnwys:

- Erthygl 9(g) – mae angen prosesu am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol
- Erthygl 9(h) – mae angen prosesu i ddibenion sylwedd meddyginiaethol rhwystrol neu alwedigaethol, i asesu capasiti gwaith y gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu triniaeth iechyd neu ofal cymdeithasol neu i reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Sut rydym yn storio eich gwybodaeth bersonol

Caiff eich gwybodaeth ei storio'n ddiogel ar System Data Gwasanaeth Orlhain Gwent.

Rydym ond yn ei chadw cyhyd ag y bo ei hangen a phan nad oes ei hangen mwyach, caiff ei dileu/dinistrio mewn ffordd ddiogel.

Eich hawliau diogelwch data

Dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

Eich hawl mynediad – Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol.

Eich hawl i gywiro – Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol rydych yn credu ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych yn credu ei bod yn anghyflawn.

Eich hawl i ddileu – Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau.

Eich hawl i gyfyngu prosesu – Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau.

Eich hawl i wrthwynebu prosesu – Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol dan rai amgylchiadau.

Eich hawl i hygludedd data – Mae gennych hawl i ofyn ein bod yn trosglwyddo'r wybodaeth bersonol a roddwyd i ni gennych i sefydliad arall, neu ei chi, dan rai amgylchiadau.

Nid oes gofyn i chi dalu unrhyw beth am arfer eich hawliau. Os ydych yn gwneud cais, mae gennym fis i ymateb i chi.

Cysylltwch â'r sefydliad perthnasol, yn unol â'r manylion uchod, os dymunwch wneud cais.

Sut i gwyno

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'n defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch gwyno drwy gysylltu â'r sefydliad perthnasol, fel y manylir uchod.

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad SCG:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113

Gwefan SCG: <https://www.ico.org.uk>